Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

Y clefyd crafu (scabies)

Y Tîm Atal Heintiau

Mae'r clefyd crafu yn bla llidiol ar y croen, sy'n achosi cosi dwys ac weithiau'n torri'r croen rhywfaint. Er ei fod yn annymunol, nid yw'n ddifrifol ac fel arfer mae'n hawdd ei drin.

Achosir y clefyd crafu gan widdon bach (ychydig fel pryfed) o'r enw Sarcoptes scabie, sy'n heintio'r epidermis (haen uchaf y croen). Gall y gwiddon dyrchu'n araf ar draws y croen, gan weithiau adael llinellau gwyn bach nodweddiadol, a all helpu i wneud diagnosis o'r clefyd crafu.

Mae'r frech fel arfer yn effeithio ar ochr fewnol yr arddwrn a rhwng y bysedd, er y gall ddigwydd hefyd ar y traed, y ffolennau, yr abdomen, y penelinoedd, o amgylch y tethi, rhwng yr afl neu o dan y ceseiliau. Efallai y bydd y cosi'n waeth yn y nos.

Yn yr ysbyty, gall nyrsys neu feddygon sydd â phrofiad o adnabod y clefyd crafu ymweld â chi. Os ydynt yn ansicr, gallant gymryd crafiad bach ar wyneb y croen y gellir ei anfon i'r labordy lle gellir gweld gwiddon y scabies neu eu hwyau o dan feicrosgop.

Mae trin y clefyd crafu'n gymharol syml. Mae hyn fel arfer yn golygu defnyddio eli neu hufen, gan adael yr eli ymlaen am gyfnod penodol o amser ac yna ei olchi. Yn yr ysbyty bydd nyrs yn eich helpu i wneud hyn os oes angen cymorth arnoch. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'r staff nyrsio os ydych yn dioddef o asthma neu os oes posibilrwydd y byddwch yn feichiog, gan y bydd hyn yn penderfynu pa driniaeth a roddir i chi.**

Hyd yn oed os yw'r eli'n llwyddiannus, gall y cosi gymryd peth amser i fynd i ffwrdd – weithiau hyd yn oed ychydig wythnosau. Y rheswm am hyn yw bod y gwiddon yn achosi adwaith alergaidd yn y corff a'r adwaith hwn sy'n achosi cosi.

Gellir trosglwyddo'r clefyd crafu i eraill ond nid yw mor heintus ag y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei feddwl. Rhaid cael cyswllt agos dros amser hir i'r gwiddon gael eu trosglwyddo o un person i'r llall e.e. cofleidio, dal neu godi. Fodd bynnag, yn amgylchedd yr ysbyty lle gall fod llawer o gysylltiad agos â nyrsys, meddygon, ffisiotherapyddion ac ati, bydd unrhyw un sydd ag amheuaeth o'r clefyd crafu yn cael ei ynysu (wedi'i nyrsio mewn ystafell ochr). Bydd yn ofynnol i unrhyw staff ysbyty sy'n dod i gysylltiad â pherson yr effeithir arno wisgo menig a gŵn i atal y clefyd crafu rhag cael ei drosglwyddo i gleifion a staff eraill. Bydd hyn yn angenrheidiol tan 24 awr ar ôl i'r hufen/eli gael ei ddefnyddio.

Mae'n debyg y bydd y meddyg yn cynghori bod unrhyw aelodau agos o'ch teulu yn mynd at eu meddyg teulu i gael eu trin am y clefyd crafu gan y gallent fod wedi cael eu heintio hefyd.

Gall hwn fod yn gyfnod gofidus iawn i chi, ond cofiwch fod y clefyd crafu yn gymharol gyffredin, ac nad yw'n gysylltiedig o bell ffordd â bod yn fudr – mae hon yn gamddealltwriaeth gyffredin.

Mae nyrsys ar gael yn yr ysbyty o'r enw Nyrsys Atal Heintiau. Gall staff y ward gysylltu â nhw ar eich rhan os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Y TÎM ATAL HEINTIAU

Ysbyty Nevill Hall	**01873 73 2048**
Ysbyty Brenhinol Gwent	**01633 23 8101**
Ysbytai Cymunedol yn cynnwys: **Ysbyty Ystrad Fawr ac** **Ysbyty Aneurin Bevan**	**07903 324603**

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".